

Tîm Modwl

Alison S Evans, Arweinydd Modwl	alison.evans2@uwtsd.ac.uk
Sian Brooks, Dirprwy Arweinydd Modwl	sian.brooks@uwtsd.ac.uk

LLAWLYFR MODWL

ECSP6001

**Egwyddorion Addysgu, Dysgu ac
Addysgeg yn y Sector Uwchradd**

Cyrsiau TAR Uwchradd

LEVEL 6

40 Credyd

CYFADRAN ADDYSG A CHYMUNEDAU

2018/2019

Tîm Modwl

Cysylltwch ag Alison Evans yn gyntaf os gwelwch yn dda. Ar gyfer cymorth **Cyfrwng Cymraeg**, cysylltwch ag Aled Williams

Cyflwyniad

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r rhaglen. Am eich bod yn ymuno â phroffesiwn, rydym yn eich disgwyl i ymddwyn mewn ffordd briodol yn y brifysgol, ysgol a chyd-destunau eraill sy'n ymwneud â gwaith. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn darllen ac yn dilyn polisïau a chanllawiau'r Brifysgol a'r Ganolfan o ran presenoldeb, asesu, e-ddiogelwch a diogelu. Mae'r rhain ar gael ar Moodle.

O ran asesu, dylai pob aseiniad fod eich gwaith chi eich hun a dylid ei gyflwyno mewn fformat prosesu geiriau. Dylech eu cyflwyno gan ddefnyddio Turnitin drwy Moodle yn unol â pholisi'r Brifysgol.

Gan gyfeirio yn benodol at aseiniadau:

- dylai'r cyfan fod eich gwaith chi eich hun;
- dylid ei gyflwyno mewn fformat prosesu geiriau;
- dylid ei gyflwyno drwy Turnitin yn unol â therfynau amser yr aseiniad;
- dylech gyflwyno'r daflen adborth a ddarperir gyda'ch aseiniad;
- dylech ymgymryd â, a dangos eich bod yn ymgysylltu â'r targedau a osodir ar eich cyfer.

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau. Mae'r rhain ar gael ar MyDay.

Aseiniad	Crynodeb o Themâu	Dyddiad cyflwyno
ECSP6001	Adfyfrio ar ddysgu ac addysgu Dyddiad a osodwyd: wythnos 2	Tachwedd 26 2018

Nodau a Deilliannau'r Modwl

NOD(AU)

- I gyfarparu myfyrwyr yn drwyadl, er mwyn iddynt ddechrau mynd i'r afael â'r gofynion statudol cyfredol a geir yng Nghymru ar gyfer dyfarniad SAC.
- I alluogi myfyrwyr yn gyflawn i wneud cysylltau cadarn rhwng bod yn ymarferwyr adfyfyriol a bod yn athrawon effeithiol.
- I ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr gymhwyso'n llwyddiannus y gofynion statudol cyfredol a geir yng Nghymru ar gyfer dyfarniad SAC o fewn arbenigeddau pwnc penodol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar gwblhau'n llwyddiannus y modwl hwn, dylai'r myfyrwyr allu dangos y gallu i:

- Ddangos gwybodaeth gynyddol drwyadl a dealltwriaeth feirniadol o'u pynciau arbenigol o fewn y cwricwlwm uwchradd drwy ddarllen, adfyfyrio ac ymgymryd ag ymholiadau ymchwil a fydd yn eu galluogi i fod yn athrawon hyfedr;
- Ddechrau cynllunio, addysgu a rheoli dosbarthiadau yn effeithiol gan sicrhau ymddygiad priodol gan y dysgwyr a deilliannau dysgu cadarn;
- Ddangos dealltwriaeth gadarn o faterion ysgol gyfan a'u perthynas, a'u cymhwyso o fewn cwricwlwm pwnc penodol;
- Fonitro ac asesu yn effeithiol ac yn bwrpasol amrywiaeth o waith dysgwyr mewn perthynas â sut mae amcanion dysgu yn hysbysu cynllunio;
- Adfyfyrio yn feirniadol ar, a chyfiawnhau strategaethau methodoleg, yn ogystal â dangos barn gadarn, er mwyn cefnogi penderfyniadau addysgeg.

Manylion y sesiynau a'r Wythnos Bontio

Dyddiad	Ffocws
Ar Moodle erbyn dydd Gwener 14/09/2018	Mynd i'r afael ag anghenion amrywiaeth o ddysgwyr
Ar Moodle erbyn dydd Gwener 21/09/2018	Damcaniaethau dysgu ac addysgeg Y Cwricwlwm Cymreig
Ar Moodle erbyn dydd Gwener 28/09/2018	Cyflwyniad i asesu Rheoli ymddygiad

ASESU

Disgrifiad o bob cydran asesu ynghyd â'i phwysiad, yn ogystal ag enghraifft ar gyfer ffyrdd newydd o asesu.

Cydran Asesu 1 - 50%

Cyflwyno episod addysgu ar raddfa fechan unigol. (Cyfwerth â 5,000 o eiriau – e.e. cynllun gwaith, cynllun gwrs)

Cydran Asesu 2 - 50%

Adfyfrio beirniadol a gwerthuso cyflwyniad addysgu ar raddfa fechan. (3,500 o eiriau)

Mae'r deunyddiau ategol yn cynnwys:

Cynllun Gwrs

Adnoddau

Gwerthusiad byr

(Cyfwerth â 1,500 o eiriau)

Manylion yr Aseiniad:

Trosolwg

O fewn cyd-destun Cynllun Gwaith ar gyfer rhyw 4-6 gwrs, cynllunio, paratoi a chyflwyno gwrs addysgu ar raddfa fechan o 30 munud ar eich testun gosodedig. Mae'n bosib caiff y wers hon ei recordio ar fideo, a'r Ffurflen Asesu Ffurfiannol CAADOC ei defnyddio ar gyfer dibenion adborth. Byddwch yn derbyn adborth ffurfiannol manwl oddi wrth eich tiwtoriaid a'ch cymheiriaid, ac mae'n bosib y cewch eich holi er mwyn cyfiawnhau eich rhesymwaith.

Rhan A

Cyflwyno pecyn adnoddau cyfan ar gyfer y wers y gwnaethoch ei chyflwyno, gan gynnwys y cynllun gwaith, cynllun gwrs, gwerthusiad tymor byr, unrhyw daflenni a gafodd eu dosbarthu, taflenni gwaith, cymhorthion gweledol neu unrhyw ddeunyddiau eraill a ddefnyddiwyd yn ystod y wers. Dylech gynnwys unrhyw waith a gynhyrchwyd gan 'disgyblion' os yw'n briodol. (Cyfwerth â thua 5,000 o eiriau)

Rhan B

Defnyddiwch lenyddiaeth ddethol a dogfennau proffesiynol i esbonio'r egwyddorion dysgu sy'n tanategu'r cynllun gwaith, sesiwn addysgu a'r adnoddau. Ystyriwch ddilyniant eich cynllun gwaith neu ofynion y maes llafur, gwahaniaethu a dysgu, Y Cwricwlwm Cymreig, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

(Tua 1,500 o eiriau)

(ii) Yng ngoleuni eich profiad addysgu cyntaf, ailymwelwch â'ch gwers addysgu ar raddfa fechan ac ewch i'r afael â'r canlynol:

- Gwerthuswch yn feirniadol eich gwers yng ngoleuni eich profiad addysgu cyntaf.
- Trafodwch sut a gallech ymdrin â'r ymarfer hwn mewn ffordd wahanol a sut y gallai hyn wella eich arfer. Sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y broses addysgu a dysgu?
- Gwerthuswch yn feirniadol ddylanwad y nodweddion hyn ar feddwl, dysgu ac ymddygiad disgyblion yng ngoleuni'r newidiadau awgrymedig.
- Gwerthuswch ddatblygiad eich meddwl chi eich hun fel athro sy'n defnyddio safonau SAC.
- Gorffennwch gyda Chynllun Gweithredu atodol sy'n cyfeirio at safonau SAC.

(Tua 2,000 o eiriau)

Cyngor ar ysgrifennu academiaidd

Ysgrifennu beirniadol:

Mae *ysgrifennu academiaidd* yn ymwneud â chyflwyno dadl wrthrychol, a dyna beth yr ydym am ddarllen. Felly, bydd rhaid i chi drafod y rhesymau ar gyfer ymagwedd, ei chryfderau a'i chyfyngiadau, yn ogystal â'r cyfiawnhad am wneud y dewisiadau a wnaed.

Rhaid i chi beidio ag *adrodd* neu *ddisgrifio* yn unig, oherwydd nid yw hyn yn creu dadl, ac felly nid yw'n *feirniadol*.

Ni ddylid gwneud y ddadl i fyny. Rhaid ei seilio ar ddarllen, gan gyfeirio at adfyfrio personol ar brofiad addysgu proffesiynol. Ceir y darllen mwyaf cyfredol mewn cyfnodolion academiaidd, a dyna pam y dylech gyfeirio at y rhain, yn hytrach na dibynnu ar lyfrau yn unig. Hefyd, caiff erthyglau mewn cyfnodolion eu hadolygu gan eich cymheiriaid, sy'n golygu bod arbenigwyr eraill yn y maes yn cydnabod y cyfraniad. Mae hyn hefyd yn golygu bod gan erthyglau academiaidd hygredded a gaiff ei adlewyrchu yn eich gwaith. Am y rheswm hwn, os ydych yn anghytuno gyda'r pwyntiau a gaiff eu gwneud mewn erthygl, bydd rhaid eich bod chi'n gallu cyfiawnhau'r sefyllfa hon drwy ddefnyddio naill ai tystiolaeth arall sydd wedi'i seilio ar ddarllen, neu sy'n seiliedig ar yr ystafell ddosbarth.

Ni ddylech ddibynnu ar *ddifyniadau uniongyrchol*, oherwydd nid eich geiriau CHI yw'r rhain. Dylech geisio aralleirio pwyntiau, am fod hyn yn dangos gwell ddealltwriaeth ac yn eich galluogi i gymharu a chyferbynnu safbwyntiau yn haws. Er hynny, dylid rhoi'r cyfeirnod am unrhyw aralleirio (Awgryma Smith (2015) ...)

laith wyliadwrus – wrth ysgrifennu'n academiaidd, rydym yn defnyddio iaith wyliadwrus. Y rheswm am hyn yw, ni allwn ddweud unrhyw beth yn bendant, nac awgrymu achos ac effaith uniongyrchol, na chreu ymateb emosiynol yn y darlennydd chwaith. Felly, rydym yn defnyddio geiriau megis 'awgrymu', 'efallai', 'mae'n ymweld pe bai'.

Cywirdeb - ar y lefel hon, rydym yn disgwyl cywirdeb o ran gramadeg, sillafu, atalnodi a chyfeirnod. Darllenwch drwy'r gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr.

Cydweddu testunau (Turnitin) – bob blwyddyn, rydym yn derbyn un neu ddau aseiniad a gaiff ei ystyried a'u gwirio am arfer annheg (lên-ladrad). Bydd rhaid i chi ddefnyddio'r safleoedd ymarfer cyflwyno i wirio am unrhyw gydweddu testunau ac ymateb yn briodol iddo. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio bod yr holl gyfeirnod yn gywir.

Cyfeirnod Harvard:

Rhaid cydnabod pob ffynhonnell gan gyfeirio'n glir at y gwaith yr ymgynghorwyd ag ef, gan ddefnyddio'r dull (Awdur, Dyddiad) o gyfeirnod e.e. y system Harvard neu'r system a ddarperir fel rhan o Word 2007.

Mae pob adran isod yn dangos sut y dylid cyfeirio at y deunydd ffynhonnell sydd yn yr aseiniad a sut y dylid ysgrifennu'r cyfeirnod ar ddiwedd eich aseiniad. Dylid rhoi'r cyfeirnodau mewn rhestr sengl yn ôl y wyddor, gan gynnwys y rhai hynny'n unig yr ydych yn cyfeirio atynt yn uniongyrchol yn eich aseiniad.

Gallwch ddyfynnu geiriau awdur, athro neu ddisgybl, air am air, er mwyn darparu delwedd neu dystiolaeth i gefnogi'r pwynt yr ydych am ei wneud. Wrth ddyfynnu ffynhonnell sydd wedi'i chyhoeddi, dylech, yn ogystal â rhoi'r enw a'r dyddiad, nodi rhif y dudalen o fewn yr un cromfachau, e.e. (Hallam, 2001, 72).

Dylid rhoi'r dyfyniadau rhwng dyfynodau – “.....” neu, ar gyfer dyfyniadau hwy, eu mewnoli ar linell wahanol.

Er hynny, sylwch y gallai gorddefnyddio dyfyniadau a ddaw o'r llenyddiaeth ddangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r deunydd, ac felly achosi i chi gael gradd asesedig is.

Llyfrau

Awdur sengl

- yn nhestun yr aseiniad: Hayes (2004)
- yn y rhestr gyfeirnodau: Hayes, D. (2004) *The RoutledgeFalmer Guide to Key Debates in Education*. London: RoutledgeFalmer

b. Dau awdur

- yn nhestun yr aseiniad: Dillon & McGuire (2007)
- yn y rhestr gyfeirnodau: Dillon, J. & McGuire, M. (eds.) 2(2007) *Becoming a Teacher: Issues in Secondary Teaching* (Third edition). Maidenhead: Open University Press.

c. Mwy na dau awdur:

- yn nhestun yr aseiniad: Davies et al., (2003)

- yn y rhestr gyfeirnodau: Davies, I., Gregory, I. & McGuinn, N. (2003) Key Debates in Education. London Continuum Books

d. Pennod gan awdur sengl mewn casgliad a olygwyd yn nhestun yr aseiniad: (Wade, 2001)

- yn y rhestr gyfeirnodau: Wade, R. (2001) "Global citizenship ;choices and change" in Lambert, D. & Machon, P. (eds.) Citizenship in Secondary Geography, London: RoutledgeFalmer.

(Ceir y confensiynau ar gyfer cyd-awduron ac awduron lluosol sydd wedi ysgrifennu penodau yn (b) a (c) uchod.)

D.S: Pe bai gan lyfr fwy nag un argraffiad, gwnewch hi'n glir yn y cyfeirnodau pa argraffiad yr ydych wedi'i ddefnyddio.

- yn nhestun yr aseiniad: (Cole, 2005)
 - yn y rhestr gyfeirnodau: C Cole, M. (ed.) (2005) Professional Values and Practice. Meeting the Standards (Third edition). London: David Fulton Publishers
- e. Cyfeirnodau anuniongyrchol (pan nad ydych wedi darllen yr astudiaeth wreiddiol)
- Yng nghorff yr aseiniad neu draethawd hir, mae'n dweud: Cole (1988, cited in Butler, 1993) stresses the importance of how Piagetian tests are presented to children.
 - Mae angen i chi gynnwys yn y rhestr gyfeirnodau y ffynonellau gwreiddiol yn ogystal â'r rhai eilaidd: Butler, M. (1993) The Mind of a Child, London: Fontana
- Cole, A. (1988) Using Piagetian Tests with Young Children, London: Academic Press

Erthyglau mewn Cyfnodolion

Awdur sengl

- yn nhestun yr aseiniad: (Boaler, 1997)
- yn y rhestr gyfeirnodau: Boaler, J. (1997) "When even the winners are losers : evaluating the experiences of 'top set' students", Journal of Curriculum Studies., 29, (2), 169 – 182.

(Sylwer: dylid darparu rhif y gyfrol (29), rhif y rhan (2) a rhifau'r tudalennau (169-182)) (Ceir y confensiynau ar gyfer cyd-awduron ac awduron lluosol erthyglau uchod).

Cyhoeddiadau'r Llywodraeth

- yn nhestun yr aseiniad: (Estyn, 2002)
- yn y rhestr gyfeirnodau: Estyn (2002) Ysgolion ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 21^{ain} ganrif. Caerdydd: Estyn.

Deunydd Electronig

a. Ar gyfer dogfen www

- Awdur, llythrennau cyntaf ei enw (blwyddyn) (h.y. os oes yna awdur). Teitl y ddogfen a'i ddilyn gyda [WWW] lleoliad y ddogfen (y dyddiad y cafodd ei chyrchu) e.e. Learning, Teaching and Managing using ICT [www] <http://www.teachernet.gov.uk/wholeschool/ictis/> (date accessed:15 April 2010)

b. Ar gyfer erthygl www sydd mewn Cyfnodolyn Electronig

- Awdur, llythrennau cyntaf ei enw (blwyddyn), Teitl y ddogfen ym manylion y cyfnodolyn [www] lleoliad y ddogfen (y dyddiad y cafodd ei chyrchu) e.e. Dal, B. (2006) 'The Origin and Extent of Student's Understandings: The Effect of Various Kinds of Factors in Conceptual Understanding in Volcanism in: Electronic Journal of Science Education 11 (1) [www]
http://ejse.southwestern.edu/volumes/v11n1/articles/art04_dal.pdf (date accessed: 15 May 2007)

Dogfennau eraill, er enghraifft, dogfennau ysgolion / colegau (polisi) sydd yn nhestun yr aseiniad. (Erehwon School, 2001)
yn y rhestr gyfeirnodau: Erehwon School (2001) "A Whole School Approach to Combat Gender Underachievement"

Darlleniadau Allweddol

Cymerwch amser i ymgymryd â darllen os gwelwch yn dda. Disgwylir bod eich trafodaethau llafar ac ysgrifenedig wedi'u cefnogi gan ddarllen.

Hefyd, ar y lefel hon, disgwylir i chi gefnogi eich darllen drwy gyfeirio at erthyglau mewn cyfnodolion cyfredol. Gallwch ddod o hyd i restr gynhwysfawr o gyfnodolion ar gatalog ar-lein y llyfrgell.

Dogfennau Polisi Allweddol a Chwricwlwm

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru
Llywodraeth Cymru Chwefror 2015

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-en.pdf>

Researched principles to guide classroom practice. Ar gael oddi wrth:
http://www.hkeaa.edu.hk/DocLibrary/SBA/HKDSE/Eng_DVD/doc/Afl_principles.pdf
[Wedi'i gyrchu 13/09/2016]

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-en.pdf>

Fframwaith Cymhwysedd Digidol (diweddariadau a chyfarwyddyd, 2016)

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=en>

Llyfrau

Allison, S and Tharby, A (2015). Making every lesson count. Six principles to support great teaching and Learning. Carmarthen: Crown House Publishing Ltd

Bates, B (2016). Learning Theories Simplified London: Sage Publications

Boyle, B and Charles, M (2014). *Formative Assessment for Teaching and Learning*. London: Sage Publications Ltd

Brooks, V, Abbott, I, Bills, L (Eds) (Second Edition). Preparing to teach in secondary schools. A student teachers' guide to professional issues in secondary education. Berks: Open University Press.

Chapter 6 – Using differentiation to support learning

Capel, S, Leasik, M and Turner, T (Eds) (2013). Learning to Teach in the Secondary School. A companion to School Experience. Oxon: Routledge.

Denby, N (Ed) (2015) 3rd Edition. *Training to Teach: Guide for Students*. London: Sage Publications Ltd

Dillon J and Maguire M (2011) Eds *Becoming a Teacher: Issues in Secondary Teaching* 4th Edition, Maidenhead: OU Press

Fautley, M and Savage, J (2008). Assessment for Learning and Teaching in Secondary Schools. Exeter: Learning Matters

Hattie, J and Yates, G (2014). *Visible Learning and the Science of How We Learn*. Oxon: Routledge.

Hargreaves, D, Beere, J., Swindells, M, Wise, D., Desforjes, C., Goswami, U., Wood, D. (2005) About Learning: Report of The learning working group. London: Demos.

Hramiak A and Hudson T (2011) Eds *Understanding Learning and Teaching in Secondary Schools*, Harlow: Pearson

Muijs D and Reynolds D (2011) Eds *Effective Teaching: Evidence and Practice*, 3rd Edition, London: Sage

Pollard A (2008) *Reflective Teaching*, 3rd Edition, London: Continuum

A review of literature. *London Review of Education*. 3 (1). P.47-64

Llywodraeth Cymru (2012) *Rhaglen Llythrennedd Cenedlaethol*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012) *Rhaglen Rhifedd Cenedlaethol*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Wiliam, D (2011). *Embedded Formative Assessment*. Indiana: Solution Tree Press

Wiliam, D (2013). Assessment: The Bridge Between Teaching and Learning. *Voices from the Middle*. 21 (2) pp 15-20

Wiliam, D and Leahy, S (2015). *Embedding Formative Assessment. Practical Techniques for K-12 Classrooms*. Florida: Learning Sciences International